

# Llwybr gyrfaol i feddygon yng Nghymru



Mae gweithio mewn meddygaeth yn llwybr gyrfaol cyffrous, heriol a deinamig, ac mae dros 60 arbenigedd i ddewis o'u plith. Mae rolau'n amrywio o feddyg teulu yn gweithio yn y gymuned, meddyg mewn ysbyty, genetegydd mewn labordy, meddygon locwm, ymgynghorwyr iechyd cyhoeddus, darlithydd yn dysgu myfyrwyr a swyddi ymchwil, i weithio yn y lluoedd arfog neu'r heddlu.

Cymru Wales

## Mae sawl llwybr gwahanol i ddod yn feddyg yng Nghymru:

- Yn syth o'r ysgol neu flwyddyn i ffwrdd i mewn i radd feddygol israddedig 5 mlynedd
- Gradd + gradd feddygol israddedig 5 mlynedd
- Gradd + Rhaglen Mynediad i Raddedigion 4 blynedd (Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe)
- Llwybr amgen – gradd Gwyddorau Meddygol / Ffarmacoleg Feddygol + gradd feddygol israddedig 4 blynedd

### Gradd feddygol israddedig, o leiaf 5 mlynedd

- Cwrs israddedig a astudir yn y brifysgol (Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd, cod UCAS A100) ac mewn ysbytai a meddygfeydd teulu ledled Cymru
- Mae hyn yn cynnwys y gwyddorau meddygol sylfaenol, dysgu craidd a thasgau clinigol ymarferol
- Profiad cychwynnol o wahanol arbenigeddau clinigol a chyswllt cynnar â chleifion
- Aseidiadau, gan ddibynnu ar y math o gwrs, gan gynnwys arholiadau ymarferol ac ysgrifenedig, gwaith prosiect a chyflwyno i grwpiau

Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd hefyd yn cynnig cwrs 6 blynedd 'Meddygaeth gyda blwyddyn ragarweiniol' (cod UCAS A104). Mae hwn ar gyfer myfyrwyr a gafodd ganlyniadau rhagorol nad dynt yn astudio Cemeg a Bioleg yn Safon Uwch.

### Rhaglen Mynediad i Raddedigion, 4 blynedd

Mae'r MB BCh Meddygaeth Mynediad i Raddedigion (cod UCAS A101) yn gwrs meddygol carlam 4-blynedd ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n agored i'r sawl a gafodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail uwch, ail ddsbarth is a gradd meist'r ôl-radd neu radd uwch arall, neu deilyngdod neu ragoriaeth mewn gradd meist'r israddedig integredig.

### Llwybr amgen, 7 mlynedd

- Gradd Gwyddorau Meddygol/Ffarmacoleg Feddygol, 3 blynedd
- Prifysgol Caerdydd BSc Ffarmacoleg Feddygol (cod UCAS B210)
- Prifysgol Caerdydd BSc Gwyddor Fiofeddygol (cod UCAS BC97)
- Prifysgol Bangor Gwyddorau Meddygol BMedSci (cod UCAS B100)
- Prifysgol De Cymru BSc Gwyddorau Meddygol (cod UCAS B901)



### Gradd feddygol israddedig, 4 blynedd

Mae'r radd feddygol israddedig yn 4 blynedd yma, gan y gellir ystyried graddedigion disglair ar gyrsiau gradd Gwyddorau Meddygol/Ffarmacoleg Feddygol ar gyfer mynediad i Flwyddyn 2 cwrs israddedig 2 flynedd Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd (cod UCAS A100).



#### Wydech chi

Fod meddygon yn cael eu galw'n 'feddygon iau' pan adawnt ysgol feddygol a mynd i mewn i hyfforddiant sylfaen? Maen nhw'n cadw'r teitl hwn trwy gydol eu hyfforddiant arbenigol, all gymryd hyd at 8 mlynedd.

Mae addysg yn parhau i fod yn rôl allweddol i bob meddyg trwy gydol eu gyrfaedd.

## Hyfforddiant Sylfaenol, 2 flynedd

# F1



Blwyddyn Sylfaen 1, 1 flwyddyn

- Cofrestrriad darpariaethol a enillwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)
- Mae'r flwyddyn hon yn helpu graddedigion newydd gymhwyso i adeiladu ar y wybodaeth a'r sgiliau a enillwyd ganddynt yn yr ysgol feddygol
- Cylchdroadau mewn arbenigeddau gwahanol
- Y dewis o gymryd rhaglen sylfaen academiaidd a datblygu sgiliau addysgu/ymchwil
- Cofrestrriad llawn gyda'r GMC ar ôl cwblhau blwyddyn F1 yn llwyddiannus



# F2



Blwyddyn Sylfaen 2, 1 flwyddyn

- Parhau â chylchdroadau, a chael profiad o nifer o amgylcheddau gwaith gwahanol gan gynnwys gofal yn y gymuned
- Erbyn diwedd blwyddyn F2, rhaid i feddygon arddangos lefelau uchel o sgil a chymhwysedd wrth reoli cleifion difrifol wael, cyfathrebu a gwaith tîm
- Cyflwynir Dogfen Cyflawni Cymhwysedd Sylfaen (FACD), sy'n galluogi meddygon i wneud cais am Raglenni Hyfforddiant Arbenigol



## Hyfforddiant arbenigol, 3-8 mlynedd

- Wedi cwblhau'r rhaglen sylfaen yn llwyddiannus, mae meddygon yn parhau â'u hyfforddiant, sef hyfforddiant ysbyty arbenigol neu hyfforddiant arbenigol arall, megis meddygaeth deulu
- Mae dros 60 o arbenigeddau gwahanol i ddewis ohonynt a bydd yr arbenigedd a ddewisir yn penderfynu hyd yr hyfforddiant cyn dod yn arbenigwr cymwysedig llawn
- Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys dysgu ac ymarfer manwl mewn meysydd uwch, ynghyd â gweithio'n fwy annibynnol, gyda goruchwyliaeth yn parhau gan feddygon hŷn
- Mae llawer yn mynd i mewn i feysydd 'thematig' arbenigol i gael arbenigedd, hyfforddiant a phrofiad mewn maes eang cyn penderfynu ar is-arbenigedd
- Mae meddygon yn cwblhau aseidiadau yn y gweithle trwy gydol eu hyfforddiant ac mae pob arbenigedd yn galw am arholiadau proffesiynol gwahanol

- Mae rhai meddygon yn dewis rhaglen sy'n caniatáu iddynt integreiddio PhD neu radd uwch arall, ar yr un pryd â'u hyfforddiant clinigol. Golyga hynny fod y cyfnod hyfforddiant yn cael ei ymestyn er mwyn iddynt allu ychwanegu astudiaeth ymchwil academiaidd
- Cyflwynir Tystysgrif Cwblhau Hyfforddiant (CCT) unwaith y caiff y cymwyseddau sydd eu hangen mewn rhaglen arbenigol eu cwblhau, ac mae hyn yn caniatáu mynediad i gofrestr arbenigol y Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r gofrestr meddygon teulu
- Er bod llwybr gyrfaol meddygol yn edrych yn weddol strwythuredig, mae cyfleoedd i gymryd saib i wneud ymchwil mewn hyfforddiant arbenigol ac i gymryd hoe yrfaol
- Unwaith y maent ar y gofrestr arbenigol, gall meddygon gynnig am swyddi ymgynghorwyr neu swyddi meddygon teulu



## Ymgynghorydd

Mae ymgynghorydd yn feddyg sydd wedi'i hyfforddi'n llawn yn eu priod arbenigedd, ac sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli gofal cleifion, yn bennaf ond nid bob tro mewn ysbytai.

## Meddyg Teulu

Caiff meddyg teulu ei hyfforddi'n llawn yn arbenigedd meddygaeth deulu a chlefydau cronig cymhleth, ac mae ganddo/i gyfrifoldeb cyffredinol am reoli gofal cleifion, y tu allan i ysbytai, gan gyfeirio cleifion at ofal arbenigol os oes angen.

## Meddyg SAS

Mae meddygon SAS (Gradd Staff, Arbenigwyr Cysylltiol a Meddygon Arbenigol) yn gweithio ar draws meysydd gofal cynradd, eilaidd ac ysbytai cymunedol. Byddant wedi cwblhau hyfforddiant mewn arbenigedd hyd at lefel benodol a byddant yn gweithio mewn tîm GIG i ddarparu gwasanaethau clinigol law yn llaw ag ymgynghorwyr a meddygon dan hyfforddiant.

# 13

blynedd o leiaf

Cyfnod yr hyfforddiant

# 10

blynedd o leiaf

Cyfnod yr hyfforddiant

### Mae'r hyfforddiant yn amrywio oherwydd hyd a lled y rôl

Mae gan feddygon SAS Isafswm o bedair blynedd o brofiad ôl-radd, dwy ohonynt yn eu dewis arbenigedd. Gall meddygon symud i mewn i'r swyddi hyn ar lefelau amrywiol o brofiad a hynafedd, ynghyd â magu profiad a chael dyrchafiad o fewn y radd ei hun. Gall y llwybr fod yn hirach os yn dilyn llwybr academiaidd neu anlinellol neu ar gyfer y sawl sy'n gweithio'n llai na llawn-amser.